**LC648**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

**ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR DEDDFAU** **LEGISLATION COMMITTEE REPORT**

**Gorchymyn Symud Anifeiliaid (Cyfyngiadau) (Cymru) 2003;**

Mae Gorchymyn hwn yn pennu'r rheolau ar gyfer symud anifeiliaid yn achos clefyd neu amheuaeth o glefyd.

**Rheol Sefydlog 11.5**

Gwahoddir y Cynulliad i roi sylw arbennig i'r gwallau drafftio canlynol sydd wedi cael eu cydnabod ar ran y Gweinidog -

1. Yn y dyfyniad o'r pwerau, amhriodol oedd cynnwys y cyfeiriadau at adrannau 87(5) ac 88(4) oherwydd nid yw'r Gorchymyn yn arfer y pwerau hynny.
2. Yn erthygl 3(1) mae'r diffiniad o "prif ffordd" yn cyfeirio at Reoliadau a Chyfarwyddiadau 1994, ond erbyn hyn maent wedi eu disodli gan Reoliadau a Chyfarwyddiadau 2002 (OS 2002/3113).

**Sylwadau**

**Erthygl 4(3)**

Ceir cyfeiriad at ryw benodol yma sydd yn cyferbynnu â'r adrannau eraill lle cyfeirir at y ddwy rhyw.

**Erthyglau 4(4) ac 11(3)**

Efallai y dymuna'r Cynulliad ystyried a fyddai wedi hoffi rhoi’r ddarpariaeth yn adran 77 o'r Ddeddf ar waith a thrwy hynny sicrhau bod symiau yn "adferadwy yn syth" yn unol â Deddf Llys Ynadon 1980.

**Erthygl 6(1)(b)**

Er bod yr ystyr yn glir ni ystyrir bod "transiting" yn y fersiwn Saesneg yn briodol o ran gramadeg.

Mick Bates AC
**Cadeirydd y Pwyllgor Deddfau**

11 Mawrth 2003